**Beirniadaeth Cystadleuaeth 345**

**Barddoniaeth dan 19 oed: Cerdd rydd/penrydd dan 19 – Perthyn**

**Beirniad: Gwenallt Llwyd Ifan**

Derbyniwyd 15 ffugenw i'r gystadleuaeth. Ni dderbyniwyd cerdd gan Curiad y Ddraig a proffil personol a dderbyniwyd gan Llais afon Gwy.

Yn gyffredinol, mae safon y gystadleuaeth yn uchel. Ceir amryw o destunau – rhai'n ddisgwyliedig ac eraill yn drawiadol o wahanol. Mae hynna'n beth da. O ran y mesurau, ceir cerddi penrydd, cerddi ar fydr ac odl, soned a mesurau sy'n gyfuniad o fydr ,odl a llinellau benrydd. Mae'r iaith yn y cerddi mwyaf llwyddiannus yn dda iawn. Dylai ambell ymgeisydd wirio eu gwaith yn fwy gofalus gan fod ganddyn nhw ddawn i farddoni a thestunau da.

Dyma sylwadau ar bob ymgeisydd yn y drefn y derbyniwyd y gwaith:

Blodeuwedd

Cerdd effeithiol am berthynas planhigyn â'r ddaear a natur. Efallai nad yw'r testun yn newydd ond mae Blodeuwedd yn rhoi gwedd amgylcheddol amlwg iddo. Mae'n medru creu delweddau effeithiol 'Treiddiodd pob blewyn yn gwlwm / Drwy dywyllwch perfedd y pridd llwm.' Mae yma fân wallau gramadegol sy'n amharu ar rediad y gerdd ond peth hawdd fyddai cywiro rheiny.

Cacamwnci

Cerdd dan y pennawd *Prifddinas* gyda'r is bennawd *(lle mae'r dyfodol yn colli amynedd).*Cerdd bwerus yn llawn dychan a chyffyrddiadau craff. Mae'r llefarydd yn gweld siniciaeth a ffalster y ddinas trwy lygaid un sy'n flinedig o'r twyll a ffolineb. Mae'r gwleidyddion yn cael sylw amlwg 'Yma mae pwer yn gwisgo esgidiau sgleiniog / ond nid yw byth yn cerdded yn bell'. 'Mae twristiaid yn tynnu lluniau o ddrws ffrynt democratiaeth / tra bod democratiaeth ei hun yn llithro allan trwy'r drws cefn / am fwgyn bach slei.'

Serch y siniciaeth, mae'r bardd hefyd yn gweld bod modd newid pethau 'a gall pwysau………gyda'n gilydd, symud unrhywbeth.

Cerdd dda iawn ac mae ei anarchiaeth yn apelio.

Doli glwt

Cerdd gyda phennawd *Dathlu'r Deugain* . Cerdd i nodi dathliad ysgol neu goleg yn ddeugain oed yn Neuadd Brangwyn. Mae yma gyffyrddiadau hyfryd 'Briwsion o bobl hyd led [sic] y degawdau'. Yn anffodus mae yma nifer o wallau gramadeg sy'n amharu ar y gerdd. Trueni, mae gan y bardd destun da.

Gwylan

Cerdd gynnil am drefniadau teuluol yn mynd o chwith. Cerdd ddigri a wnaeth i mi chwerthin oherwydd er enghraifft y 'harmoneiddio arswydus' a'u 'trefniadau chwit-chwat'. Efallai byddai'r gerdd ar ei hennill drwy ddefnyddio mwy o ddelweddau a throsiadau. Hyfryd yw'r clo lle mae'r bardd yn derbyn 'Taw un ohonynt, ydw i.'

Hafren

Cerdd deimladwy am werthu cartref teulu. Gwêl y bardd y pethau bychain hynny sy'n gwneud cartref yn cael eu colli 'Byseddu'r paent wedi'i naddu ar ffram y drws – Marciau ein taldra'. Mae awgrym yma o ddigwyddiad tyngedfennol 'rhyw fath o syniad am dwyll y byd'. Dyma gerdd dda – mae lle i dwtio yma a thraw a chryfhau'r atalnodi.

I'r gad

Pennawd i'r gerdd yw *Perthyn i Genedl.* Cerdd fydryddol gyda naws 'rant'. Mae'r bardd yn ysgrifennu'n fyrlymus ac mae'r gerdd yn llifo o un pennill i'r llall. Efallai bod y delweddau yn rhai parod 'Y nentydd y traeth / A'r tirwedd lu / Y chwedlau, y trysorau / llawn o hud.' Hoffwn weld y bardd yn defnyddio delweddau mwy cyfoes i annog siaradwyr Cymraeg. Pwy fyddai'n anghytuno â'r diweddglo? 'Mae tân y ddraig yn rhuo fry, / A dyfodol ein gwlad yn ein dwylo ni!'

Jacob Richter

Is bennawd i'r gerdd yw dyfyniad enwog Margaret Thatcher am gymdeithas a theulu. Cerdd addawol iawn. Mae gan y bardd safbwynt wrth-wleidyddol gref sy'n treiddio trwy'r gerdd. Mae yma drosiadau effeithiol megis y 'pla o dermitiaid'. Gwaetha'r modd mae yma angen cywiro iaith a chystrawen er mwyn gwneud yn fawr o'r tesun ardderchog a ddewiswyd gan y bardd.

Lili Wen Fach

Cerdd am berthynas teulu a'r cariad nas fynegir rhwng unigolion . Cerdd deimladwy am un sy'n ceisio dygymod â theulu nad ydynt yn mynegi eu teimladau. Mae yma ddelweddau cryf ac effeithiol ac mae'r gerdd yn agor i gydnabod bod cariad yn bodoli 'Mae cariad yn y tŷ hwn / Rwy'n ei deimlo trwy'r amser, / yn y pethau bach / cyffredin.' Mae'n disgrifio'r fam-gu yn pwytho a'r fam yn mynd o gwmpas y gwaith tŷ. Fan hyn mae'r bardd ar ei gorau wrth ddefnyddio delweddau diriaethol. Ar ddiwedd y gerdd mae'n cydnabod 'yn y tŷ hwn, / mae gofal digysur / lle mae cariad heb agosatrwydd…..'.

Machlud haul

Soned a gafwyd gan y bardd hwn. Cerdd gan un sy'n dychwelyd o'r ddinas i fyw yn ei gynefin. 'O lygredd myglyd prysur a di-goed / y ddinas ddiflas, llwydaidd iawn ei gwedd'. Mae'n soned effeithiol gyda thinc traddodiadol iddi megis 'mewn rhyw baradwys draw'.

Mae'r delweddu yn gryf iawn ac mae'n amlwg ein bod yng nghwmni crefftwr o fardd. Mae'r clo yn gampus. 'Rwyf nôl, rwyf adref yn fy mro a'i lliw / A gwn yn iawn, mai dyma beth yw byw.'.

Mafon

Cerdd benrydd yn holi'r cwestiwn 'Pe na bawn yn Gymro, pwy fyddwn i?' a gafwyd gan Mafon. Cerdd annwyl iawn yn ystyried ystrydebau'n plentyndod sy'n rhan o'r profiad Cymreig traddodiadol. Mae'n gerdd agos atoch gyda'i '….hen hwdi Maes B llynedd dros byjamas'. Cerdd effeithiol a fyddai'n gerdd dda i adroddwyr ifanc.

Malu Sali

Cerdd benrydd am berthynas rhieni sydd wedi chwalu, o safbwynt y ferch fach.

Mae'r delweddau cynnil yn arddull effeithiol dros ben. 'Bag Hello Kitty ar fy nghefn'. Y cyffyrddiadau bychain sy'n codi'r gerdd hon i dir uchel.

'Y droed arall yn barod am Dad / Ei *mac 'n' cheese* / ei gitâr……'

Mae'r ferch fach yn dal ei dol Sali Mali wrth i'r rhieni ei throsglwyddo o un llaw i'r llall i dreulio amser gyda'i thad. Daw arwyddocad y ffugenw gogleisiol yn amlwg wrth ddarllen y gerdd. Dyma fardd cynnil, effeithiol a gyflwynodd cerdd drawiadol iawn.

Martha Plu Chwithig

Cerdd ar fydr ac odl a gafwyd gan y bardd hwn. 'Ymhell o glyw'r atomfa / Tu hwnt i'r peilonau cras'. Cerdd sy'n cyfeirio at amser ar lan y môr sydd gan y bardd hwn. Cerdd effeithiol a thraddodiadol ei naws. Efallai bod y mesur yn arwain yr odlau o bryd i'w gilydd. Cerdd dda a didwyll, serch hynny.

Saffrwm

Cerdd benrydd am ffoaduriaid a gafwyd gan Saffrwm. 'Bagiau'n bentwr o wlybaniaeth / ar lan y dŵr / Olion traed yn rhesi hir, truenus…..

Mae'n gerdd dda ond gall Saffrwm ystyried sut i wneud y gerdd yn fwy cynnil ee trwy hebgor y pennill sy'n rhestru 'dim croeso/ dim brawdgarwch; / dim…..'. Dewisodd y bardd destun da iawn a gall weithio ar y gerdd er mwyn sicrhau mwy o gynildeb. Mae gan y bardd ddawn.

I grynhoi, cefais flas ar ddarllen y gwaith i gyd. Mae yma feirdd da a beirdd addawol iawn. Mewn cystadleuaeth gref, rwy'n gosod Malu Sali yn gyntaf oherwydd ei chynildeb hyderus a cherdd drawiadol iawn. Yn ail, mae Cacamwnci am ei feiddgarwch a dychan deifiol. Yn drydydd, mae Machlud haul am ei soned draddodiadol a theimladwy. Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu.